WHC (2019) 037

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

**Dyddiad Cyhoeddi:** 28 Tachwedd 2019

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**<u>STATWS</u>: GWEITHREDU**

**<u>CATEGORI:</u> IECHYD Y CYHOEDD**

**Teitl:** Archebu brechlynnau ffliw ar gyfer tymor 2020-2021

**Dyddiad dod i ben / Adolygu** Amherthnasol

**I'w weithredu gan:**
Ymarferwyr Cyffredinol
Fferyllwyr
Prif Weithredwyr, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd

**Er gwybodaeth i:**
Cyfarwyddwyr Meddygol, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio, Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd
Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd
Arweinwyr Imiwneiddio, Byrddau Iechyd
Cydgysylltwyr Imiwneiddio, Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Pennaeth y Rhaglen Brechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Fferylliaeth Gymunedol Cymru
Cyngor Ymarferwyr Cyffredinol, Cymru

**Anfonir gan:**
Prif Swyddog Meddygol Cymru

**Enw(au) Cyswllt AIGC yn Llywodraeth Cymru:**
Y Gwasanaethau Diogelu Iechyd, yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd.
CF10 3NQ E-bost: HealthProtection@llyw.cymru

**Dogfen(nau) amgaeedig:** Dim

Annwyl Gydweithiwr,

Mae ymgyrch eleni ar gyfer brechu yn erbyn y ffliw wedi bod yn heriol iawn o ganlyniad i faterion cyflenwi sy'n peri oedi yn achos cyflenwi rhai brechlynnau. Hoffwn ddiolch i bawb sy'n rhan o'r rhaglen am y gwaith ychwanegol sy'n cael ei wneud, yn enwedig staff practis cyffredinol, staff fferyllfeydd cymunedol a byrddau iechyd, timau nyrsio ysgolion a'r rhai sy'n rhan o ymgyrch staff iechyd a gofal cymdeithasol, sydd wedi cefnogi a rhoi sicrwydd i gleifion, rhieni, plant a chydweithwyr.

Bydd llawer ohonoch eisoes wedi dechrau cynllunio ar gyfer y tymor nesaf. Mae'r llythyr hwn yn cynnig cyngor ar archebu cyflenwadau o frechlyn y ffliw ar gyfer 2020-2021. Fe'i seilir ar gyngor gan y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI). Mae datganiad JCVI ar frechlynnau ffliw ar gyfer y tymor 2020-2021 i'w weld yma.

Er mwyn sicrhau y gellir cynnig y brechlynnau a argymhellir i gynifer o bobl â phosibl mewn grwpiau cymwys, mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau stoc ddigonol o'r brechlyn priodol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn manteisio ar y cyfle i gael eu brechu, heb wastraffu gormod yn ddiangen Mae'n bwysig rhoi brechlyn i unigolion sy'n cynnig yr amddiffyniad gorau iddynt, a bydd oedran a grŵp risg yn dylanwadu ar y dewis o frechlyn.

Y brechlynnau a argymhellir ar gyfer 2020-21 yw:

**Oedolion 65 oed ac yn hŷn**

- Brechlyn ffliw trifalent sy'n cynnwys cyffur ategol (aTIV)
- Brechlyn ffliw trifalent dos uchel (TIV-HD) – gwelir isod

Credir bod y brechlynnau hyn yr un mor addas i'w defnyddio yn achos y rhai 65 oed ac yn hŷn, ac maent yn well ha brechlynnau ffliw trifalent a phedwarfalent safonol a seilir ar wyau (TIVe/QIVe).

O dan *Influenza Directed Enhanced Services (Directions)* a gyhoeddwyd yn Awst 2019, ni wneir ad-daliad ond am frechlynnau effeithiol fel yr argymhellir yn y cylchlythyr hwn. Er bod y TIV-HD yn frechlyn effeithiol, byddai ei gost uchel yn gofyn am lawer mwy o gyllid y GIG o'i gymharu â'r dewis arall sydd yr un mor effeithiol. Felly **ni chaiff TIV-HD ei argymhellir at ddefnydd arferol yn rhaglen genedlaethol y GIG ar gyfer ffliw.**

Mae brechlyn meithriniad celloedd ffliw pedwarfalent (QIVc) yn addas i'w ddefnyddio yn y grŵp oedran hwn os nad oes aTIV neu TIV-HD ar gael.

**Oedolion agored i niwed 18 i 64 oed (gan gynnwys menywod beichiog)**

- Brechlyn meithriniad celloedd ffliw pedwarfalent (QIVc)
- Brechlyn ffliw pedwarfalent a seilir ar wyau (QIVe)

Credir bod y brechlynnau hyn yr un mor addas i'w defnyddio mewn oedolion o dan 65 oed ac mewn grŵp agored i niwed (yn ddarostyngedig i fynegiannau oedran trwyddedig).

**Plant**

Nid yw cyngor JCVI ar frechlynnau ffliw i blant wedi newid :

- LAIV (brechlyn ffliw pedwarfalent byw wedi'i wanhau) yw'r brechlyn sy'n cael ei argymell i'w ddefnyddio gyda phob plentyn cymwys 2-17 oed, oni bai eu bod wedi cael eu cynghori yn ei erbyn. Gweler manylion pellach isod.
- Dylai plant y cynghorir yn ei erbyn rhoi LAIV iddynt gael cynnig brechlyn ffliw pedwarfalent trwyddedig y gellir ei chwistrellu. (Mae QIVc wedi'i drwyddedu ar hyn o bryd ar gyfer plant o 9 oed ymlaen).
- Dylai plant 6 mis i lai na dwyflwydd oed mewn grŵp risg clinigol gael cynnig brechlyn ffliw pedwarfalent trwyddedig addas y gellir ei chwistrellu.

**Staff Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd GIG Cymru**

Dylai byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd archebu digon o'r brechlyn i'w chwistrellu sy'n dod i gysylltiad uniongyrchol â chleifion fel a ganlyn:

- Brechlyn meithriniad celloedd ffliw pedwarfalent (QIVc)
- Brechlyn ffliw pedwarfalent a seilir ar wyau (QIVe)

**Gweithwyr mewn cartrefi preswyl i oedolion a chartrefi nyrsio (gan gynnwys hosbisau) a staff gofal cartref**

Dylai fferyllwyr cymunedol sy'n rhan o raglen y GIG ar gyfer imiwneiddio rhag y ffliw ar gyfer gweithwyr gofal archebu digon o gyflenwadau o frechlyn pedwarfalent y gellir ei chwistrellu:

- Brechlyn meithriniad celloedd ffliw pedwarfalent (QIVc)
- Brechlyn ffliw pedwarfalent a seilir ar wyau (QIVe)

**Rhaglen Imiwneiddio Plant rhag y Ffliw**

Bydd rhaglen imiwneiddio plant rhag y ffliw 2020-2021 yn cynnig LAIV i blant o ddwyflwydd oed hyd at flwyddyn ysgol 6 (sef yr holl blant cynradd). I'r nifer bach o blant cymwys y mae LAIV yn anaddas ar eu cyfer, dylid cynnig brechlyn ffliw pedwarfalent y gellir ei chwistrellu.

## Gwrtharwyddion a rhagofalon

Dylai ymarferwyr gofal iechyd gyfeirio at y bennod ar ffliw yn y "Llyfr Gwyrdd" i gael yr holl wybodaeth am wrtharwyddion a rhagofalon brechlynnau ffliw. Mae hyn i'w gael yn:

https://www.gov.uk/government/publications/influenza-the-green-book-chapter-19

## Archebu Brechlyn Ffliw i'w Chwistrellu

Y tymor hwn ac yn  2018-19, mae rhai brechlynnau wedi cael eu cyflenwi o dipyn i beth oherwydd materion gweithgynhyrchu. I leihau'r risg o brinder brechlynnau ar gyfer unigolion sydd mewn risg argymhellir bod archebion ar gyfer brechlyn ffliw i'w chwistrellu'n cael eu gosod gyda mwy nag un cyflenwr lle bo modd. Dylai practisau a fferyllfeydd gydweithio o fewn clystyrau i helpu i sicrhau bod brechlynnau amgen ar gael yn lleol.

Dylai byrddau iechyd sicrhau bod gan bractisau a fferyllfeydd gyfle cyfartal i archebu brechlynnau effeithiol amgen.

**Practisau Cyffredinol**

Dylai practisau cyffredinol anelu at gynyddu nifer y rhai sy'n cael brechiad rhag y ffliw mewn grwpiau cymwys bob blwyddyn, ac archebu digon o'r brechlyn i ddiogelu:

- o leiaf 75% o'u cleifion sy'n 65 oed ac yn hŷn;
- o leiaf 55% o'r rhai hynny sy'n iau na 65 oed ac mewn grŵp agored i niwed;
- gofalwyr di-dâl;
- pob menyw feichiog;
- plant rhwng chwe mis a dwyflwydd oed mewn grŵp agored i niwed;
- y nifer bach iawn o blant rhwng 2 ac 17 oed mewn grŵp agored i niwed sydd wedi cael eu cynghori yn erbyn brechlyn ffliw byw wedi'i wanhau (LAIV);
- y nifer bach o blant oedran cynradd sydd wedi cael eu cynghori yn erbyn LAIV;
- plant mewn grwpiau cymwys eraill;
- staff practis.

Ni ddisgwylir i'r grwpiau cymwys a hysbyswyd ar gyfer tymor 2020-21 newid o gwbl. Bydd unrhyw newidiadau pellach yn cael eu dwyn i'ch sylw cyn gynted â phosibl.

Rhagwelir y bydd tua 1.5% yn fwy o bobl Cymru yn 65 oed neu'n hŷn y gaeaf nesaf. Felly mae angen archebu brechlyn ychwanegol er mwyn brechu'r un nifer ag eleni, ac fe ddylid cymryd y cynnydd hwn i ystyriaeth wrth archebu brechlynnau.

**Fferyllfeydd Cymunedol**

Unwaith eto, gwahoddir fferyllfeydd cymunedol i gefnogi'r ymgyrch yn 2020-21 drwy gynllun Fferylliaeth Gymunedol ar gyfer Brechu Rhag y Ffliw. Dylai byrddau iechyd geisio gwneud trefniadau gydag unrhyw fferyllfa gymunedol yn eu hardal sy'n bodloni'r safonau a ddisgrifir yn y fanyleb gwasanaeth gwell y cytunwyd arni'n genedlaethol.

Dylai byrddau iechyd nodi a datblygu enghreifftiau o arferion da pan fo practisau meddygon teulu a'u fferyllwyr cymunedol wedi gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu dull gweithredu cyson sy'n cryfhau trefniadau lleol, dileu rhwystrau rhag cyrraedd at y brechlyn, a chynyddu nifer y bobl o'r grwpiau cymwys sy'n cael eu brechu.

**Parhau i Frechu yn ystod y Tymor Presennol**

Diolch i chi am eich cymorth parhaus i gynyddu'r nifer sy'n cael y brechlyn ffliw ac i ddiogelu rhagor o bobl rhag y clefyd ataliadwy hwn a allai fod yn ddifrifol.

Yn gywir

**Dr Frank Atherton**
**Y Prif Swyddog Meddygol / Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru**